

UCHELWYR A'U BYD YM MRO MORGANNWG A'R CYFFINIAU YNG NGHANRIF Y TUDURIAID

Rhys Amheurug, hanesydd enwog sir Forgannwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a ddisgrifiodd brif nodweddion Bro Morgannwg yn gryno yn ei arolwg manwl

Morganiae Archaigraphia a ysgrifennwyd tua 1578:

This part of the country was always renowned as well as for its fertility of the soil, and abundance of all things serving to the necessity or pleasure of man, as also for the temperature and hot summers of of the air ... low swelling hills ... where rivers run in, wherewith it is well replenished ... pleasant meadows and ... pastured ... apt for tillage, bearing abundance of all kind of grain, replenished with great store of cold and sweet springs.

Rhanbarth ffynniannus felly oedd hon, gyda'i thir toreithiog, gwastad a ffrwythlon, yn ymestyn o afon Rhymni yn y dwyrain i dref Aberafan yn y gorllewin. Fe'i hystyrid yn un o'r parthau mwyaf cefnog yng Nghymru ac yn yr Oesoedd Canol, wedi'r goresgyniad Normanaidd yn ail hanner yr unfed ganrif ar ddeg cynhwysodd teyrnas Morgannwg ran sylweddol o'r Mers neu'r gororau yn y de ddwyrain, sef yr arglwyddiaethau estron a ffurfiodd y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac yn fwy penodol y terfyn rhwng y drefn Normanaidd a'r gymdeithas Gymreig. Yn wreiddiol estynnai Morgannwg o Abertawe i afon Gwy, yn cynnwys Erging ac Ewias yn sir Henffordd, ac yn y rhanbarth lleolwyd pedwar cantref, sef Gorfynydd, Penychen, Breiniol a Gwynllwg, o afon Tawe i Wysg. Ond o ganolbwyntio ar Fro Morgannwg, y fan y lleolir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, fel y cyfeiria'r bardd Dafydd Benwyn yn oes y frenhines Elisabeth mewn cywydd mawl i siroedd Brycheiniog, Morgannwg a Mynwy, gwlad doreithiog oedd hi, yn ymestyn o'r ardaloedd ucheldirol yng ngogledd y sir, sef y Blaenau, i'r tiroedd ffiniol (Bro'r Cyrion) rhyngddi a'r tiroedd bras arfordirol yn y de, y rhannau o'r sir lle y ganwyd Iolo Morgannwg ddwy ganrif wedi hynny.

I'r tiroedd hyn yr ymestynnodd y Normaniaid cynnar a sefydlu eu harglwyddiaethau, eu cestyll, eu trefn ffiwdal, eu hiaith Ffrengig a'u diwylliant. Ynddynt, yn y Brodoraethau, y trigai'r Cymry a barhâi i gynnal eu dulliau traddodiadol o fyw gan warchod eu traddodiadau, eu trefn gymdeithasol a'u hiaith. A pharhaodd y traddodiadau hynny i flodeuo er i'r dylanwadau estron amlhau ac i deuluoedd milwrol a threfol Normanaidd ac Eingl-Normanaidd ymsefydlogi yn y tiroedd, rhai ohonynt yn ddisgynyddion i'r teuluoedd gwreiddiol a ddaeth gyda Robert Fitzhamon,

arglwydd Normanaidd cyntaf Morgannwg. Aeth Syr Edward Stradling o Sain Dunwyd, yr uchelwr mwyaf dysgedig yn y sir yn ail hanner canrif y Tuduriaid ati i ysgrifennu hanes y deuddeg marchog cyntaf i ddod dan y teitl 'The Winning of the Lordship of Glamorgan' rhwng 1561 a 1566 er nad oedd ei deulu ef ei hun yn un ohonynt. Yn ddiau cafodd yr estroniaid hyn ddylanwad mawr ar y bywyd cyhoeddus ac ar ddiwylliant Morgannwg a bu aelodau o nifer ohonynt, yn arbennig o'r bedwaredd ganrif ymlaen yn noddwyr y beirdd teithiol y mae eu cynnyrch ar gael mewn llawysgrifau a bellach mewn print.

Y teuluoedd hyn, yn ogystal â theuluoedd uchelwrol brodorol, â'u gwreiddiau'n ddwfn yn y pridd, yn arbennig ym Mlaenau Morgannwg, a ddaeth i'r brig yn yr Oesoedd Canol diweddar yn arweinwyr yn y cantrefi a'r cymydau, a phenodwyd aelodau blaenllaw mewn sawl un ohonynt yn swyddogion dan awdurdod brenhinol neu deuluoedd pendefigol fel Herbertiaid, Ieirll Penfro, a Somerset, Ieirll Caerwrangon, ac erbyn dyfod Harri Tudur i orsedd Lloegr roeddynt wedi hen sefydlu'u hunain yn deuluoedd pwerus, a nifer cynyddol o'u haelodau wedi derbyn addysg mewn ysgolion gramadeg, prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt ac Ysbytai'r Brawdlys yn Llundain, a llwyddodd nifer cynyddol i ennill ffafr Harri a'i olynwyr. Cryfhawyd eu grym wedi i'r ddwy Ddeddf Uno gael eu gosod ar lyfr statud senedd Lloegr yn 1536 a 1543 pan ddiddymwyd arglwyddiaethau'r Mers a ffurfio pum sir newydd ohonynt a ychwanegwyd at chwe sir y Dywysogaeth a sefydlwyd gan Edward I yn Statud Cymru 1284. Un o'r siroedd hynny oedd Morgannwg, arglwyddiaeth frenhinol erbyn hynny, a ymestynnai o arglwyddiaeth Gŵyr (a unwyd â'r sir yn 1536) ag afon Rhymni yn y dwyrain ac fe'i rhannwyd yn ddaeryddol rhwng y Blaenau i'r gogledd a'r Fro yn y de.

Mae gormod o bwyslais yn y gorffennol wedi cael ei roi gan rai haneswyr, yn arbennig rhai o dueddiadau cenedlaetholgar, mai melltith ar Gymru oedd y Deddfau Uno yng nghyfnod Harri VIII, yn arbennig o safbwynt diwylliant a hunandod Gymreig. Ar y naill law ni ellir amau, wrth gwrs, eu bod wedi achosi rhai peryglon oherwydd hynny ond, ar y llaw arall deddfwriaeth oedd hon a luniwyd i gydymffurfio â syniadaeth yr oes am undod gwladwriaethol mewn cyfnod pan roddwyd pwyslais mawr, yn ysbryd oes newydd y Dadeni, ar greu gwladwriaethau cenedlaethol yng ngorllewin Ewrop, yn arbennig yn Ffrainc, Sbaen a Lloegr. Nid dechrau tueddiadau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol hollol newydd wnaeth y deddfau hyn eithr parhau a chryfhau yr hyn a fuasai'n amlwg genedlaethau cyn hynny. Yr oedd nifer

cynyddol o uchelwyr Cymru, a ddaethai i amlygrwydd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen, wedi gwasanaethu Coron Lloegr mewn llywodraeth leol a chanolog ac ar faes y gad i'r diben hwnnw, wedi dod yn hyddysg mewn Saesneg a rhai mewn Lladin a Ffrangeg i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Mewn geiriau eraill, ffurfiwyd cynghrair gref rhwng y frenhiniaeth Duduraidd a'r uchelwyr Cymreig a bu'r newidiadau mawr yn y gyfundrefn economaidd wledig a threfol ac mewn perchenogaeth ar dir, mewn cyfnod maith o ddadfeiliad, ynghyd a diddymiad y mynachlogydd, yn gyfrwng iddynt adeiladu ystadau, rhai ohonynt yn sylweddol eu maint a'u cyfoeth, ac ennill swyddi proffidiol. Ym Morgannwg, daethai'r manteision hynny'n frith i feddiant yr uchelwyr, Eingl-Normanaid a Chymreig cyn y Deddfau Uno ac wedi hynny, ac o ganlyniad daethant i'w hoed yn y gymdeithas yng Nghymru a Lloegr. Hwyoedd gweision y Goron a'r meistri ar eu tenantiaid ac eraill is eu gradd na hwy, aelodau o deuluoedd, nifer ohonynt a hybai fuddiannau dau ddiwylliant, brodorol ac estron.

Yng nghanrif y Tuduriaid agorodd cyfleusterau buddiol i'r uchelwyr hyn, yn arbennig yn y Fro a'i chysylltiadau masnachol a gorllewin Lloegr a thu draw yn Ewrop. Deuai'r teuluoedd brodorol yn bennaf o'r Blaenau er bod ganddynt ganghennau yn y Fro trwy briodas a chysylltiadau cymdeithasol eraill. Olrheinient eu gwreiddiau i bedwar cyndad o'r canrifoedd cynnar, sef Einion ap Collwyn, Iestyn ap Gwrgant, Gwaethfoed a Maenarch, a rhoddent bwyslais mawr ar barch ach a thras a safle'r penteulu (*paterfamilias*) o fewn y gyfundrefn deuluol. Deuai disgynyddion Einion ap Collwyn o Ynysarwed yng Nglyn-nedd yn y Blaenau, a Rhys ap Siôn oedd prif benteulu Aberpergwm, sef yr amlycaf o noddwyr beirdd yn y parthau hynny. Teulu Lleision ap Rhys o Faglan oedd prif gynrychiolwyr disgynyddion Iestyn ap Gwrgant gyda changhennau yn Llandudwg, y Sgêr, Cilfai a'r Llys Newydd ym Mro Gŵyr. Meddai Matheuaid Morgannwg ar dai yn Llandaf, Meisgyn, Radur, y Rhws, Llanilltud Faerdref a Saint-y-nyll yn Llansanffraid-ar-Elái, a changen ohonynt oedd Lewisiaid y Fan ger Caerffili. Deuai Fychaniaid Dwn-rhefn o gyff Maenarch yn Sain-y-brid a'r Gadlys yn Llangynwyd a Llanilltud Fawr, a theulu'r hynafiaethydd a'r hanesydd enwog Rhys Amheurug o'r Cotrel ym mhlwyf Sain Nicolas o Garadog Freichfras. Enghreifftiau yw'r teuluoedd hyn o'r rhai a wreiddiwyd yn bennaf yn ardaloedd y Blaenau ac a fu'n deyrngar i linach frenhinol y Tuduriaid ac aelodau ohonynt yn wasanaethgar iddynt mewn swyddi gweinyddol ac yn noddwyr amlwg i'r beirdd a ymwelai â'u tai.

Yn y Fro, fodd bynnag, y ceid y teuluoedd estron, nifer ohonynt hwy hefyd, erbyn cyfnod y Tuduriaid, yn hyddysg yn hanes a hynafiaethau Cymru ac yn noddwyr da i'r beirdd. Priodasai sawl aelod ohonynt i deuluoedd Cymraeg a thrwy hynny ymgyfarwyddo â'r diwylliant brodorol a'r dull Cymreig o fyw. Ymhlith y rhain cafwyd Awbreaid Llantridddy, teulu Carne, Ewenni a'r As fach (Nash), Tomasiaid Gwenfô, Faniaid Marcroes, Basetiaid y Bewpyr, Ffleminiaid Trefflemin, Gameisiaid Castell y Coety, ynghyd â'r Herbertiaid a feddai ar ganghennau yn Abertawe, yr As Fach, Cogan, arglwyddiaeth Castell-nedd a chastell a phriordy'r Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd. Pabyddion di-ildio oedd Twrbiliaid Llandudwg, Llanilltud Fawr, Penllin, Pen-y-bont ar Ogwr a Threbiced, un o'r ychydig deuluoedd a allai brofi ei fod wedi dod i Forgannwg gyda Fitzhamon. Nid uchelwyr tiriog yn unig oeddynt ond rheolwyr eu cymunedau a noddwyr cyson i'r beirdd.

Un o'r teuluoedd estron amlycaf – a'r grymusaf – ymhlith teuluoedd o'r fath a sefydlwyd yn y Fro oedd Stradlingiaid Sain Dunwyd a chafwyd tri phennaeth yn olynol i'r etifeddiaeth yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sef Syr Edward Stradling y cyntaf (m.1535), ei fab Syr Thomas ei fab, Pabydd cadarn (m.1573), a'i fab yntau'r enwog Syr Edward Stradling yr ail a ddaeth i'r brig fel tîrfeddiannwr ac ysgolhaig o'r radd uchaf ymhlith ei gyd-uchelwyr. Astudiodd lawysgrifau achyddol a hynafiaethol, noddai feirdd ac ysgrifennodd gefndir hanes ei frodir gydag awch brwdfrydig.

Teulu grymus arall oedd Manseliaid Margam, Oxwich a Phen-rhys, y dywedir iddynt sefydlu gyntaf yng Ngŵyr yng nghyfnod Edward I ac a amlhaodd eu gafael ar dir, yn bennaf trwy briodas, yn yr unfed ganrif ar bymtheg wedi diddymu'r mynachlogydd pan brynodd Rhys Mansel, Siambren De Cymru a siryf ddwywaith ar y sir, abaty Margam. Ei olynnydd oedd Syr Edward Mansel a etifeddodd Margam yn 1559 ac a ddilynodd ei dad mewn byd cyhoeddus a thîrfeddiannol gydag awch, fel y mwyafrif o'i gyd fonheddwyr, i ymgyfreithio er cynnal eu heiddo a'i ymestyn pan fyddai hynny'n fanteisiol iddo. Canodd y bardd Rhisiart Iorwerth (mab Iorwerth Fynglwyd) gywydd i geisio dod ag anghytundeb ffaidd ynglŷn â goruchafiaeth i ben rhyngddo a Syr Siors Herbert o Abertawe yn Llys Siambri y Seren yn 1557. Meddai'r bardd mewn llinellau taer i geisio tawelu'r dyfroedd rhyngddynt:

Y wlad aeth heb olau dydd
Yn flin ac yn aflonydd ...
Dig a bar yn ymaros
Duw nef rhag hyd yw y nos!
Gwiliad pa bryd y gwelwyf

Gwawr ddydd yn agori 'dd wyf;
Mawr o lid yw, mae'r wlad wen,
Morgannwg, 'n ymroi i gynnen.

Nid yw cwpledi o'r fath yn ddieithr mewn cywyddau cymod rhwng uchelwyr a'i gilydd ac maent yn adlewyrchu dyhead dwfn y beirdd am weld cymrodedd rhwng arweinwyr cydnabyddedig yn eu cymunedau, gwŷr y disgwylid iddynt gynnal heddwch a threfn yn ôl gofynion llywodraeth y wladwriaeth. Tywyll a diffaith oedd gwlad, meddai'r bardd, heb oleuni i'w goleuo. Pwysleisid yr angen i barchu cyfraith a gweithredu cyfiawnder, sail yr ardrefniad gwleidyddol rhwng Cymru a Lloegr yn 1536 y cyfeiriwyd ato gan Rhys Amheurug wrth iddo draethu ar hanes ei sir:

Now, since Wales was thus ... enabled with the laws of England, and thereby united to the same, and so brought to a monarchy, which is the most sure, stable and best regiment, they are exempted from the dangers before remembered ... What was then justifiable by might, although not by right, is now to received condign punishment by law ... This unity engendered friendship, amity, love, alliance ... wealth and quietness. God preserve and increase it.

A dyna oedd sail athroniaeth wleidyddol dyneiddwyr yr oes mewn cyfnod o oleuedigaeth ddeallusol cyfnod y Dadeni Dysg. Er na oddefwyd anghyfraith a gwrthdaro, yn arbennig wedi cyfnodau maith o anhrefn yn y Mers, cafwyd digon o raib rhwng teuluoedd bonheddig a hynny, er cryfed cyfraith gwlad, oherwydd bod uchelgais yn drech na dim arall mewn cymdeithas dirfeddiannol farus a chystadleuol. Golygai meddiant ar dir a daear ennill cyfoeth, ac yn sgil hynny enillid grym ac awdurdod. Hynny a ystyrid bwysicaf gan y rhai â'r gallu a'r penderfyniad ganddynt i sicrhau dyrchafiad materol. 'The most necessary and incomparable virtue is called justice for the governor of a public weal', meddai Thomas Elyot, yr ysgolhaig dyneiddiol enwog, 'that without it none other virtue may be commendable nor wit any manner of doctrine profitable', datganiad a ystyriai gyfiawnder yn rhinwedd a nodwedd anrhydeddusaf yr uchelwr delfrydol. Meddai Wiliam Llŷn am Syr William Herbert, Iarll Penfro:

O rhoed twrn yn rhaid teyrnas,
Ei gyngor oedd gaing o ras ...
Cefn dôr fawr cyfiawnder fu.

Geiriau haeddiannol yn wir, yn ôl y bardd ond yn amlach na pheidio y reddf gryfaf a ddangosid gan yr uchelwyr oedd honno a sicrhâi iddynt elw a golud ar draul eraill,

boed hynny mewn cymuned wledig neu drefol. Nid rhyfedd felly i'r Cyngor yn y Mers geryddu Syr Edward Stradling a William Mathew o Radur, dirprwy-raglawiad y sir yn 1586 – blwyddyn dyngedfennol, gyda llaw, yn y berthynas ryfelgar rhwng Lloegr a Sbaen – am eu hesgeulustra yn rheoli morladrad ar eu harfordiroedd a drwgweithredu ar y tir. ‘For it is reported’, meddid, ‘some riots, unlawful assemblies, many affrays and bloodsheds, yes, peradventure bloody actions, have not been not only unpunished, but bolstered by you; which if it be so ... you are not indeed what you seem in show’. Achosai camymddygiad difrifol ar ran gŵyr fel y rhain yr ymddiriedwyd gymaint ynddynt i gynnal heddwch a threfn lawer o bryder i'r awdurdodau, cymaint yn wir fel y bu i Syr William Herbert, Arglwydd Lywydd y Cyngor yn y Mers, fentro cyfarfod â Syr Edward Stradling a'i gâr Thomas Carne o Ewenni yn Sain Dunwyd i geisio sicrhau cymod rhyngddynt oherwydd ‘this boiling hatred’ a ddinistriai eu cyfeillgarwch ac a oedd yn fêl ar fysedd eu gelynyon. Ac nid cymheiriaid uchelwrol yn unig oedd y rhai a'u hamddiffynnai eu hunain rhag rhaib tiffeddianwyr eithr tenantiaid na welai unrhyw ffordd o wella'u hamgylchiadau dan awdurdod meistri llym. Disgrifiwyd Anthony Mansel fel a ganlyn yng nghofnodion y Llys Deisebion fel tirfeistr a achosai ddrwgdeimlad rhyngddo a'i denantiaid: ‘a man in these parts of great kindred, power and authority [who] doth by all ways and means desire ... to make his tenants weary of the occupation.’

Cofnodid lliaws o achosion o'r fath mewn llysoedd barn yng Nghymru a Lloegr, a chyhuddwyd nifer o uchelwyr Bro Morgannwg yn Llys Siambur y Seren am dorri'r gyfraith trwy drais ac yn Llys y Siec am drawsfeddiannu tir a daear.

Gwedd arall ar y cyfiawnder y disgwyliad i'r uchelwyr ei arddangos oedd gweithredu'r hyn a ystyrid yn gyfiawn mewn llysoedd barn a swyddogaethau gweinyddol.

Penodwyd Ustusiaid Heddwch i weithredu mewn Llysoedd Chwarter am y tro cyntaf yng Nghymru mewn deddf yn union cyn y Ddeddf Uno cyntaf, etholwyd aelodau seneddol yn ôl y ddeddf honno a pharhaodd swydd y siryf sirol, a grëwyd yn y Dywysogaeth yn 1284, wedi ail Ddeddf Uno 1543 ym mhob sir. Uchelwyr o'r Fro a weithredai'r swyddogaethau hyn fynychaf yn y sir a bu rhai ohonynt yn ddeiliaid swydd Ustusiaid Heddwch ac aelodau seneddol dros flynyddoedd lawer a sefydlwyd Cyngor Cymru yn y Mers ar sail statudol yn Llwydlo lle y cynhaliwyd ef ers ei sefydlu yn llys rhagorfreiniol y Goron gan Edward IV yn 1471 a'i ail-sefydlu gan Harri VII yn 1501. Dyrchafwyd William Herbert, Iarll Penfro y cyntaf o'r ail

greadigaeth, yn swyddog amlwg yn llys Harri VIII a'i olynwyr ac yn Arglwydd Lywydd y Cyngor yn Llwydlo yn 1555.

Swydd ganolog ym Morgannwg ac yn siroedd eraill Cymru a Lloegr oedd yr Ustus Heddwch a ymddiriedwyd yn bennaf i ofal yr uchelwyr grymusaf yn y siroedd. Hwyl, a elwid yn 'llawforynion y llywodraeth ganolog' yn lleol oedd yn gyfrifol am weinyddu cyfraith a threfn a materion gweinyddol yn lleol a chyd-gysylltent yn gyson â'r siryfion sir, y dirprwy-raglawiaid (wedi 1586 yng Nghymru) a'r mân swyddogion mewn is-lysoedd er sicrhau bod llywodraeth y wladwriaeth Duduraidd yn cael ei gweinyddu'n gyfreithlon. Yn ddiaw, aelodau o'r teuluoedd brasaf eu byd a enillai'r blaen ar feinciau'r Llys Chwarter yn Y Fro, yn arbennig y Stradlingiaid, y Manseliaid a theulu Carne. Ni cheid cydbwysedd bob tro yn y dulliau a ddefnyddid i gynnal y drefn, ac yn aml âi rhai o'r Ustusiaid ym Morgannwg, fel ym mhob sir arall, ar gyfeiliorn wrth iddynt geisio gwarchod eu buddiannau personol. Cyfrifid hynny, mewn rhai cyfeiriadau, yn rhinweddau pe cedwid at ofynion y gyfraith, ac yn y cyddestun hwnnw y disgrifiodd Gervase Babington, Esgob Llandaf, haelfrydigrwydd Syr Edward Stradling:

Virtue being fyrdred maketh her founders famous ... The Lord hath made you a pillar of this country and, if your godly zeal shall ever make you so, also of his kingdome.

Gallai cael ei alw'n golofn ei sir gyfeirio at nifer o agweddau ar statws Stradling a ystyrid yn gyneddfau cymeradwy, a byddai hynny'n cynnwys ei weithredoedd cyhoeddus yn cynnal heddwch a threfn yn ei fro, er iddo'n achlysurol, fel eraill o'i gymheiriaid, dramgwyddo yn erbyn y gyfraith parhawyd i'w gydnabod yn rhinwedd ei gefndir teuluol a'i amgylchfyd.

Mewn cyfnod, sef y blynyddoedd o tua 1534 ymlaen, pan ddatganodd Harri VIII yn ffurfiol trwy statud ei fod bellach yn Bennaeth Goruchel ar yr Eglwys yn ei deyrnas, ychwanegwyd y pwysau ar weithredu cyfraith a threfn pan geid ymryson ynghylch crefydd. Yn ystod teyrnasiad ei fab Edward VI cyflwynwyd y ffydd Brotestannaidd, newidiwyd hynny gan ei olynnydd Mari, ei hanner-chwaer Babyddol, ac yna, ar ddechrau teyrnasiad Elisabeth, hanner-chwaer iddi hi, crëwyd Ardrefniad crefyddol Protestannaidd newydd a'r Frenhines yn Bennaf Llywodraethwr arno. Her wedi hynny oedd amddiffyn annibyniaeth y deyrnas rhag grym y pwerau Catholigaidd ar y cyfandir, yn arbennig Sbaen, a chynyddodd y perygl erbyn 1580au'r ganrif. Mewn sefyllfa o'r fath disgwyliid i ddeiliaid y deyrnas ymostwng i awdurdod y Frenhines

dan y drefn Brotestannaidd a chosbwyd Pabyddion yn llym. Fe ymddengys fod mwyafrif uchelwyr Bro Morgannwg yn barod i newid eu teyrngarwch a derbyn y drefn newydd ond nid penderfyniad hawdd iddynt oedd ymwrthod â chrefydd eu hynafiaid ac mewn rhai cyfeiriadau mae'r dystiolaeth am gryfder eu teyrngarwch i'r Goron yn bur niwlog. Gwyddom i deulu'r Twrbiliaid barhau'n ffyddlon i'r 'Hen Ffydd' ac i unigolion fel Syr Edward Carne a Syr Thomas Stradling (tad yr enwog Syr Edward) ac eraill ymwrthod â Phrotestaniaeth ac i Carne farw yn llys y Pab yn Rhufain, ond erbyn diwedd y ganrif cryfhaodd y 'Ffydd Newydd' ei gafaél ar y wlad. Ceir digon o dystiolaeth yn y cerddi caeth a rhydd am dymheredd crefyddol ymhlith uchelwyr y Fro, a dangosodd Lewys Morgannwg, Llywelyn Sion a Sils ap Sion a beirdd eraill eu ceidwadaeth. Ni ellir bod yn sicr o deyrngarwch Lewys yn ei flynyddoedd olaf, fodd bynnag, gan iddo foli Harri VIII am ei gryfder yn diorseddu'r Pab a'i ddilynwyr yn ei deyrnas ('ffalswyr crefyddwyr', 'amheuwyr Duw' ac 'anghredwyr Iesu'). Er hynny, canodd i'r Grôg yn Llangynwyd a Llan-maes a dau gywydd moliant i Fair o Ben-rhys. Mae agwedd Syr Edward Stradling – swyddog cadarn i'r drefn lywodraethol – ar ddechrau cyfnod Elisabeth hefyd yn dangos ansicrwydd ar ei ran. Yn 1569, er ei deyrngarwch i'r drefn newydd, gwrthododd arwyddo datganiad yn galw ar Ustusiaid Heddwch i gydnabod Deddf Unffurfiaeth a mynychu'r eglwysi plwyf yn gyson gan na allai ei gydwylbod ganiatáu iddo wneud hynny, ond cysurai ei hun, am iddo gyfaddawdu â'r Goron Duduraidd, nad oedd yn heretic ond yn swyddog a orfodwyd trwy ddeddf gwlad i dderbyn yr Ardrefniad crefyddol. Wedi dweud hynny, ni ellir anwybyddu'r ffaith fod y cynnydd mewn reciwsantiaeth grefyddol yn destun gofid i'r awdurdodau yng nghyfnod yr hinsawdd wleidyddol fygythiol, yn arbennig wedi i'r Pab Pius V ysgymuno'r Frenhines gyda'i fwl *Regnans in Excelsis* yn 1570. Ym Mro Morgannwg rhwng 1584 a 1603, cyfrifwyd bod cyfanrif o 397 reciwsant yn byw dros dro mewn pump o'i phlwyfi. Cyfnod ansicr yn wir oedd blynyddoedd sefydlu'r 'Ffydd Newydd' mewn ardal fel hon lle glynid yn dyn wrth draddodiadau crefyddol a fu.

Ond yn eu plastai llywodraethai'r uchelwyr yn ddigon annibynnol ar alwadau grym y wladwriaeth, a phwnc allweddol mewn unrhyw astudiaeth o uchelwyr Bro Morgannwg ag unrhyw ardal arall yw safle eu cartref a'r teulu a berthynai iddo, Erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg daethai'r tai cyfrifol i gymryd lle'r hen gestyll canoloesol fel canolfannau bywyd y mawrion a rhoddwyd mwy o sylw i'r bywyd grasol dyneiddiol nag i sifalri a milwriaeth y dyddiau a fu. Wedi dweud hynny, ni

ddylid diystyru cyfraniad uchelwyr ifanc ar faes y gad ym myddinoedd Harri VIII, er enghraifft, yn Ffrainc a'r Alban, a bu Lewys Morgannwg wrthi'n ddiwyd iawn yn canu'n orfoleddus i rai ohonynt am eu gwrhydri ac mewn un awdl ac un cywydd afieithus i Harri VIII yn rhinwedd ei statws newydd wedi iddo ymwrthod yn llwyr ag awdurdod y Pab a chreu ei hun yn Bennaeth Goruchaf ar yr Eglwys yn ei deyrnas trwy statud yn 1534:

Ddoe Esgob Rhufain o ddysg y profaist.
Y sy i'th deyrnas o'i waith a derniaist ...
Ei sêl a'i gyfraith, hyn a ddiffeithiaist.
Yn iach mwy hynny! Yn wych 'mwahenaist.
Ffalswyr crefyddwyr a'u côr a faeddaist.
Am dwyll a phechod i'r llawr y'u dodaist.

Cafwyd cyfnodau ysbeidiol o ryfela ar y cyfandir ym mlynnyddoedd canol y ganrif a thystiai'r beirdd i ddewrder a theyrngarwch y milwyr hynny ar feysydd Ffrainc. Meddai Lewys drachefn am lwyddiant Tomas Gamais o'r Coety ar faes y gad yn Nhwrnai (Tournai) yn Ffrainc yn 1513 lle yr urddwyd ef yn farchog gan y brenin, ac yn Nherwyn (Thérouanne), eto yn Ffrainc yn yr un flwyddyn, a chyfeiriodd mewn cwpledi cignoeth at fuddugoliaethau'r brenin ar y meysydd hynny. Dyletswyddau gwladol oedd rhyfela ac nid gyrfa barhaol i'r uchelwyr. Gofalu am fuddiannau'r teulu a'r ystâd a chynnal heddwch a threfn oedd eu prif gyfrifoldebau. Yn ddiâu, roedd eu plastai yn brif ganolfannau i'w hawdurdod ac ynddynt y meithrinwyd y diwylliant a'r bywyd grasol. Ychwanegai'r tai, mawr a bach, at fawredd ac ysblander, bri ac urddas teulu ac adlewyrchwyd hynny yn eu gohebiaeth ac yn y cerddi caeth mawl a marwnad a genid iddynt. Hwn a ystyrir y symbol ardderchocaf o uchelwriaeth freiniol a cheir disgrifiad byw o Sain Dunwyd gan Siôn Dafydd Rhys yn agoriad ei gyflwyniad o'r Gramadeg Lladin i Syr Edward Stradling yn 1592. Er i'r môr llidiog ferwi a rhuo a'r tonnau hyrddio yn erbyn y creigiau a muriau'r plasty, ni allai'r tymhestloedd ddinistrio cadarnle'r penteulu na'i wraig Agnes Gage, 'uchel ei thras'. Yn ôl delfrydau'r oes cydnabuwyd y *paterfamilias* yn gynheiliad hierarchaeth ordeiniedig gan Dduw ac yn olynydd teilwng i'w hynafiaid. O droi eto at yr hyn a ddywed Siôn Dafydd Rhys am Stradling cyfeirir at hynny'n gryno:

'N ddiâu yr ydych chwi bob amser wedi bod yn warcheidwad ac yn ddilynwr diwyd i wir rinwedd ... nid ydych i'ch ystyried yn ail i'r un ohonynt [sef ei hynafiaid] o ran rhinwedd, yr ydych yn hyglod ar gyfrif bonedd eich hynafiaid

Dyna ddisgrifiad o wŵr y Dadeni yng ngwir ystyr y gair yn unol â'r diffiniad ohono gan yr Eidalwr Baldassare Castiglione, Syr Thomas Elyot, Roger Ascham ac eraill ymhlith awduron dyneiddiol. Disgrifiasant brif egwyddorion boneddigeiddrwydd, rhinwedd a doethineb yng ngwaith y wladwriaeth a rhoddasant y lle blaenaf i gyflawni dyletswydd, cyfrifoldeb a rhwymedigaeth, hanfodion y cyfiawnder a nodwedddai uchelwyr newydd oes y Tuduriaid. Rhoddwyd pwyslais mawr ar le addysg a theithio diplomataidd a diwylliannol yng ngwneuthuriad y gŵr cwrtais, aelod o'r *elite* Tuduraidd dethol. Ystyrid bod addysg glasurol yn gyfraniad allweddol i lunio'r ddelwedd o'r 'gŵr Tuduraidd', ac yn ganllaw i hyrwyddo moesgarwch a gwarineb. Dysgwyd y meibion a'r merched yn y tai bonheddig sylweddol eu byd gan diwtoriaid ac oddi yno ai cyfran dda o'r meibion i brifysgol neu ysbytai'r brawdlys. Yn ei ewylllys darparodd Syr Rhys Mansel ar gyfer cynnal dros gyfnod o ugain mlynedd o gyllid maenor Trelales 'un gŵr gonest a dysgedig' i addysgu ei wyrion, ei or-neiaint ynghyd â thri neu bedwar o blant galluog ei denantiaid ym Margam ar yr amod fod eu rhieni'n gyfrifol am eu bwydo a'u dilladu.

O'r holl efrydwyr a aeth o Gymru i'r colegau yn Lloegr yn y ganrif 1540-1640 Morgannwg oedd yr ail o ran nifer i sir Ddinbych. Aethai'r rhan fwyaf ohonynt, fodd bynnag, i ysbytai'r brawdlys am hyfforddiant ar gyfraith gwlad yn bennaf gan fod astudiaeth o'r gyfraith yn bwysig i fonheddwyr ifanc ar gyfer gweithredu fel swyddogion mewn llysoedd barn, gofalu am eu heiddo tiriog ac i amddiffyn eu buddiannau gerbron eu gwell yn y llysoedd. Mae'n syndod na chodwyd ysgol ramadeg mewn rhanbarth mor ddeniadol a chyfoethog ei theuluoedd bonheddig yng nghanrif y Tuduriaid, ond agorwyd ysgolion bychain preifat yn Sain Nicolas, y Bontfaen, Castell-nedd a Llanilltud Fawr, a bu raid aros nes i Syr Edward Stradling gynllunio sefydlu ysgol yn nhref farchnad fwyaf llewyrchus y Fro, ac wedi ei farw i'w etifedd, Syr John Stradling ei hagor yn 1609. Dau o'r sefydliadau diwylliannol yn y Fro cyn diddymu'r mynachlogydd oedd yr abaty a reolwyd gan yr Abad Dafydd ap Tomas ap Hywel ym Margam a Leision Tomas yn Abaty Nedd, yr abad olaf yno, a chanodd Lewys Morgannwg, un o feirdd mawr olaf Morgannwg awdl fawreddog i Leision ac ynddi disgrifiodd ysblander y ddysg a gyfrennid ynddo:

Unifersi Nedd, llyna fawrson – Lloegr,
Llugorn Ffrainc, Iwerddon;
Ysgol hygyrch ysgolheigion
I bob siens be bai Seion ...
A mawr foliant ymrafaelion;

Arithmetic, music grymusion – sofeustr,
Rhetric, sifl a chanon.

Pennill grymus yn crynhoi dysg y Dadeni a fu'n gymorth i'r mynaich i ledu gorwelion, hyd yn oed mewn cyfnod o ddirywiad yn hanes yr urddau, a'r cyfan yn dangos nad oedd hi ar ben ar ambell dŷ crefydd yng Nghymru ar drothwy'r chwalfa fawr.

I Rydychen aeth Syr Edward Carne yn ei ieuenctid. Ef oedd ail fab Hywel Carne o'r As Fach. Graddiodd yn ddoethur yn y gyfraith yn 1524 ac fe'i dyrchafwyd i fod yn wŷr llys amlwg, yn siryf ei sir ac yn aelod seneddol. Daeth Syr John Herbert, mab Mathew Herbert o Abertawe yn farnwr y Morlys a'r Llys Deisebion wedi ei gyfnod yn Rhydychen a dyrchafwyd yntau hefyd i swydd uchel yn gennad dros y Goron ar y cyfandir, yn Gyfrin Gynghorwr ac yn ail Ysgrifennydd Gwladol y deyrnas. A llwyddiannau tebyg a ddaeth i ran Syr Robert Mansel, mab iau Syr Edward Mansel, a Syr John Stradling. Gellid enwi eraill hefyd, wrth gwrs, ond dilyn yr un patrwm addysgol a wnaent, yn bennaf yn Rhydychen ac yn ysbytai'r brawdlys, a rhai ohonynt yn teithio ar y cyfandir (y 'Grand Tour' fel y'i gelwid) i ledu eu gorwelion addysgol. Ymwelodd Thomas Mansel, etifedd Syr Edward Mansel â Pisa yn yr Eidal yn 1524, a theithiodd Syr Edward a Syr John Stradling hefyd cyn dychwelyd i ymroi i'r cyfrifoldeb o reoli eu hystadau. Teimlai Siôn Dafydd Rhys fod Syr Edward Stradling wedi cyflawni llawer o ofynion y bywyd bonheddig trwy ymweld â a rhyfeddu at ogoniannau'r Dadeni yn Ewrop:

... yr ydych wedi treulio amser helaeth yn yr Eidal ... ac nid hynny'n unig, oblegid yr ydych wedi teithio drwy'r rhan helaethaf o weddill Ewrop.

Canlyniad hyn oll yw fod pob profiad wedi cynhyrchu ynoch ddysg, a dysg gynifer o rinweddau ... yn ddiau yr ydych chwi bob amser wedi bod yn warcheidwad ac yn ddilynwr diwyro i wir rinwedd; yr ydych bob amser wedi rhagori ar bawb fel gwneuthurwr tangnefedd.

Dyma ddatganiad sy'n crisialu i'r dim y dylanwadau a gawsai'r profiadau cyfoethog hyn ar wŷr ifanc a'r adnoddau ganddynt i flasu gwareiddiad y byd dyneiddiol ar ei aeddfetaf. A dyna fu profiad Syr Thomas Mansel o Fargam, etifedd Syr Edward a ddyrchafwyd yn farwnig, fel y tystia Dafydd Benwyn mewn moliant iddo yn ei ddyddiau cynnar. Cawsai addysg dda, yn Rhydychen ac ar y cyfandir, meddai'r bardd ac fe brofodd yntau'n hael o awyrgylch y Dadeni, cymaint yn wir fel y dymunai iddo

ddychwelyd o'r llys a'r bywyd Llundainig i'w ystâd yn y Fro. Ac meddai'r bardd ymhellach wrth ddisgrifio'i deithiau mynych:

Pwy a gred mor ddysgedig?
Paun od brau, pen wÿd a brig.
Y Mansel, mynnaist weled,
Emyn gras, bob man o gred;
Fawrson, pa nywnyfersi
Yn bost aur na buost ti? ...
Pa iaith o gred faith heb fost
O naws gwir dda nas gwyddost?
Drych y fonedd wÿd heddiw,
Drwy fry, ddysg, diryfedd yw.

Dull arall i uchelwyr Morgannwg ledu eu gorwelion yn ddiwylliannol a materol oedd trwy drefnu priodasau sefydlog a llwyddiannus i'w plant, nifer dda ohonynt yn etifeddwyr ystadau, o'r sir neu o'r tu allan iddi. Diben priodas i deuluoedd tirlfeddiannol oedd sicrhau parhad teuluol, a lluniwyd cytundebau yn ofalus fel y gallai'r naill deulu a'r llall elwa o'r uniad. Byddai'r briodferch yn rhoi gwaddol (dowry) ar achlysur y briodas i deulu'r priodfab yn ôl eu statws ac yn ddiau meddiant ar dir ac eiddo oedd yr ystyriaeth bwysicaf yn y trefniant. Fel y cynyddai ffyniant y teuluoedd hyn yn aml chwilid am gymar o radd uwch mewn cymdeithas, yn arbennig i fab hynaf a fyddai'n etifeddu'r ystâd, a golygai hynny chwilio'r farchnad yn ofalus fel y gellid llunio cytundeb manteisiol. Yn aml ceid cytundebau o'r fath yn lleol, yn arbennig os byddai hynny'n arwydd o gydbwysedd statws a gradd fel, er enghraifft, priodas William Basset o'r Bewpyr a Catherine, merch Syr Rhys Mansel, a Syr Thomas Stradling yn uno â Catherine, merch hynaf Syr Thomas Gamais o'r Coety. Priodas ddiddorol oedd honno rhwng Rhys Amheurug, yr hanesydd o'r Cotrel, a Mary Fleming, merch Christopher Fleming o Drefflemin a'i wraig gyntaf Elizabeth Mansel o Oxwich. Roedd hi'n nith i Syr Rhys Mansel ac yn gyfnither gyntaf Syr Edward Stradling. Cafwyd nifer o briodasau mewnbylg o'r fath ond estynnai rhai teuluoedd eu hadenydd dros y ffin i chwilio am gymar i'r etifedd. Priodwyd Siân Stradling, merch hynaf Syr Thomas Stradling o Sain Dunwyd a Syr William Griffith III o'r Penrhyn, Siambren Gogledd Cymru, unwyd Syr John Carne o Ewenni â merch Syr Walter Hungerford o Farley a Barbara Gamais o'r Coety â Syr Robert Sydney, Penshurst, swydd Caint, brawd iau Syr Philip Sydney. Gellid cyfeirio at nifer o briodasau o'r fath rhwng teuluoedd bonheddig o amrywiol raddau cymdeithasol ac ni ddylid diystyru statws y ferch fonheddig yn ei chymdeithas. Er mai'r gŵr oedd y penteulu hi, yn

ddiau oedd brenhines ei chartref, yn gyfrifol am ei phlant ac am drefnu achlysuron arbennig pan ddeuai cyfeillion neu berthnasau bonheddig ynghyd i ymweld â dathlu. Hi hefyd fyddai gofalu am gynhaliaeth y teulu a sicrhau bod y cartref yn ddiddos, a chyda'i merched byddai'n creu iddi hi ei hun enw da fel darparwraig ceinder a chwaeth yn y tŷ. Yn aml byddai'n arbenigwraig ar frodwaith, gwnïo, distyllu persawr a gwneud cydau melys (sweet bags) ymhlith llawer o ddanteithion eraill. Yn ddiau cyflawnai'r wraig fonheddig y cyfan oedd yn angenrheidiol i gynnig lletygarwch, ac adlewyrchir hynny'n gyson yng nghyfansoddiadau mawl y beirdd.

Cyfeiriwyd eisoes at gyfraniad uchelwyr Bro Morgannwg i hanes a hynafiaeth, yn arbennig waith Syr Edward Stradling a Rhys Amheurug o'r Cotrel. Codai hynny'n bennaf o'u diddordeb mawr mewn achyddiaeth a hynny am resymau teuluol amlwg. Golygai'r traddodiad o gasglu achau yn yr Oesoedd Canol ac wedi hynny gynnal 'gwaedoliaeth' teulu, y berthynas waedol rhwng carenyddion a thylwythau a roddai urddas i deulu wedi iddo esgyn i'r brig mewn cymdeithas fonheddig. Dyna paham y cyfansoddodd Stradling y 'Winning of the Lordship of Glamorgan' a Rhys Amheurug ei *Morganiae Archaialographia* (neu 'A Book of Glamorganshire Antiquities').

Cyflwynwyd traethawd Stradling i Syr William Cecil a chynhwyswyd y gwaith yn *The Historie of Cambria* gan Dr David Powel, Rhiwabon, yn 1584. Meddai ar gasgliad enfawr o lyfrau printiedig yn cynnwys y cartwlari – casgliad o siarteri a chofnodion – pwysig 'The Register of Neath', y copïwyd rhan ohono gan Syr John Stradling, a llawysgrifau yn ei lyfrgell yn Sain Dunwyd, a thalodd am gyhoeddi fersiwn Ladin o ramadeg Cymraeg gan Siôn Dafydd Rhys yn 1592, gwaith y canodd y bardd Meurig Dafydd, disgybl Lewys Morgannwg, yn frwd iddo. Gelwid Stradling y 'Maecenas', y noddwr clasurol delfrydol, sawl gwaith ac yn 'brifymgledwr ein iaith Gymraec yn neheugwlad Gymru' gan 'Syr' Thomas Wiliems ar ddechrau ei anerchiad i'w Eiriadur Lladin-Cymraeg a gyflwynwyd iddo. Gŵr tebyg iawn iddo oedd Syr Edward Mansel a feddai ar lyfrgell gynhwysfawr y bu i sawl un fanteisio arni, fel y gwnaeth y bardd Lewys Dwnn a gyfeiriodd at y 'Regords a llyfrau y rhai o grefydd' a welsai yno. Archifau oedd y rheini a feddiannodd ei dad pan brynodd abaty Margam, ac yn y cywyddau marwnad a ganwyd iddo yn 1585 gan Ddafydd Benwyn Llywelyn Siôn a Meurig Dafydd cyfeiriwyd at yr amddiffynfa a gollodd Morgannwg a'r deyrnas o'i ymadawiad, yn arbennig mewn blwyddyn pan dorrodd rhyfel rhwng Lloegr a Sbaen.

A daw disgrifiadau o'r fath o'r diddordebau diwylliannol at ystyriaeth o safle'r Gymraeg ym mywyd uchelwyr Bro Morgannwg mewn cyfnod a ystyrir gan haneswyr yn un tyngfennol yn ei hanes. Yn neddf 1536 datganwyd yn ffurfiol na allai unrhyw Gymro ddal swydd dan y Goron os nad oedd yn ddwyieithog. Rhan bwysig o bolisi'r llywodraeth ar y pryd oedd hwn, mewn cyfnod pan oedd sofraniaeth brenin Lloegr yn ymestyn i gynnwys y ddwy wlad, gan fod unffurfiaeth gyfreithiol a gweinyddol yn hanfodol i greu undod cyfansoddiadol. Ni fu atal o gwbl ar unrhyw Gymro neu Gymraes rhag siarad eu hiaith ac er i dueddiadau cymdeithasol effeithio ar y defnydd a wnaed o'r iaith ymhlith uchelwyr, yn arbennig meibion iau a orfodwyd yn aml i adael cartref i sicrhau bywoliaeth, mae'n ddilys cofio mai proses oedd honno a ymestynnai'n ôl sawl cenhedlaeth yng Nghymru, Ceir sawl enghraifft o Gymry amlwg, cyn ac wedi Gwrthryfel Glyndŵr a ddefnyddiai'r Saesneg, y Lladin a'r Ffrangeg, yn ogystal â'r Gymraeg, a rhai a brynai ddinasyddiaeth Seisnig i ddyrchafu eu statws yn y byd cyhoeddus yn y bymthegfed ganrif. Byddai'r cynnydd yn y defnydd o'r Saesneg yn digwydd hefyd yn sgil y twf mewn addysg a chysylltiadau priodasol rhwng teuluoedd cynhenid Gymraeg a theuluoedd Saesneg yng Nghymru a Lloegr. Wedi dweud hynny parhaodd nifer fawr o uchelwyr i siarad a darllen eu hiaith frodorol a cheir digon o dystiolaeth i ddangos bod y beirdd teithiol yn canu'n afieithus i'w noddwyr, er bod eu safonau'n araf edwino ym Morgannwg erbyn canol canrif y Tuduriaid. Canmolwyd Sir William Herbert, Iarll Penfro, am ei barodrydd i siarad ei iaith a'i gyd-Gymry yn y llys brenhinol ac ategwyd hynny gan yr ysgolhaig Pabyddol Gruffudd Robert yn ei ragair i'w *Gramadeg Cymraeg* (1567):

Canys fe wyr holl Gymru a Lloegr faint yw eich serch i'r Frutaniaith, pryd na ddoedech wrth Gymro ond Cymraeg, ie ymysg penaduriaid y deyrnas fel y clywais fagad o wyr yn dweud gan fawr ddiolch i Dduw uchod eu pennaeth mewn gradd, a lle cyn uchod yn dangos dirfawr serch o'i wlad naturiol, ar ei ymddygiad a'i ymadrodd.

Ac fe'i gwerthfawrogwyd am hynny hefyd gan eraill fel Syr Siôn Prys o Aberhonddu, a chan Syr Thomas Wiliems o Drefriw a'i disgrifiodd fel 'llygad holl Gymru' yn rhinwedd ei uchel swydd yn Arglwydd Lywydd y Cyngor yn y Mers. Ac meddai Wiliam Llŷn ar yr un donfedd mewn cywydd marwnad iddo:

Pa bai'r Iarll pybyr ei win
Oll gerbron Lloegr a'i brenin
Doedai ef, a didifar,
Gymraeg wrth Gymro a'i gân.

Canodd Dafydd Benwyn, bardd mwyaf toreithiog ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ym Morgannwg a brodor o Langeinwyr, Cwm Ogwr, foliant nifer helaeth o uchelwyr y Fro a'r Blaenau er fod safon ei brydyddiaeth ef yn ogystal ag eraill fel Llywelyn Siôn o Langewydd, Sils ap Siôn o gwmwd Meisgyn a Meurug Dafydd o Lanisien ond a ganai i noddwyr yn y Fro, yn dangos arwyddion o'r dirywiad a oedd bellach yn nodweddiadol o'r gyfundrefn farddol. Mae'n bwysig nodi bod dylanwad y Blaenau wedi bod yn fawr yn ddiwylliannol yn y parthau hynny, yn arbennig cynnyrch Aberpergwm yn Nhir Iarll, gan fod nifer o feirdd yr ucheldir yn canu i deuluoedd estron a brodorol y Fro. Nid y Ddeddf Uno oedd yn bennaf cyfrifol am hynny eithr natur ac ansawdd yr uchelwriaeth newydd faterol a ddaethai dan ddylanwad y Dadeni Dysg, a lledaeniad yn y diddordebau estron ymhlith uchelwyr a brynai dai tref yn Llundain a rhai ifanc a gyrchai i'r ddinas a Llwydlo i ddilyn gyrfaoedd mewn cyfraith a gweinyddiaeth y tu draw i'w cynefin. Ond, wedi dweud hynny, er i'r nychdod hwn effeithio mwy ar gymunedau'r Fro yn fwy na'r Blaenau, parhaodd nifer dda o noddwyr i groesawu'r beirdd ymhlith y Manseliaid, y Stradlingiaid a theuluoedd eraill fel Carne, Basset, Herbert, y Twrbiliaid a Lewisiaid y Fan ynghyd â man fonedd eraill.

Mae Syr John Stradling yn cofnodi yn ei lawysgrif gyfreithiol *The Storie of the Lower Borowes of Merthyr-mawr*, fod y bardd Meurug Dafydd wedi moli Syr William Basset ac i hwnnw, wedi iddo'i wobrwyo am ei lafur, daflu'r gerdd i'r tân: 'if there be no copy of this extant', meddai Basset, 'none shall there ever be, and therewith put it sure enough into the fire'. Mae'n ddiddorol sylwi yma, fodd bynnag, fel y dywed Stradling, fod y diffynnydd wedi dod â dau fardd herodrol i'r llys 'i brofi achau' ('to try pedigrees') yn yr achos llys, a Meurug Dafydd oedd un ohonynt, bardd y mae ei gywydd marwnad i Basset yn parhau i fod ar gael mewn llawysgrif! Rhyfedd o fydd. Ond ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar yr hyn a ddywed Stradling am ymateb Basset i gerdd y bardd am sawl rheswm, nid y lleiaf am nad oedd Basset, mae'n debyg, yn ddigon hyddysg yn yr iaith i'w darllen a'i deall gan mai cynnal traddodiad y teulu'n unig a wnâi wrth wobrwyo'r bardd.

Parhaodd yr iaith ymhlith rhydd-ddeiliaid a thenantiaid ar lawr gwlad a chynyddodd y cwndidwyr i ganu eu cerddi rhydd crefyddol – a elwid hefyd yn garolau – a thaflu goleuni ar amgylchiadau a effeithiai ar y werin mewn cyfnod o newidiadau mewn cyfnod pan gyflwynwyd eglwys Brotestannaidd newydd yn ffurfiol yn y deyrnas ym mlynnyddoedd canol y ganrif. Diddorol yn y cyd-destun hwn yw cyngor William

Gamais i William Herbert o Cogan Pill i ddysgu'r Gymraeg gan y byddai'n ddefnyddiol iddo yn ei ymwneud â'i denantiaid: 'You are a gent born to good means in ye native soil, and therefore not to deal in your affairs by interpreters, which oft are deceitful, but rather ... to answer all in their own language.' Datgelir peth tystiolaeth mewn dogfennau sy'n dangos i ymdrech gael ei wneud ymhlith rhai o'r di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Cyflogwyd tiwtor yn y Gymraeg gan y teulu Gamais i ddysgu'r iaith i'w plant, ac felly bu hefyd ym Margam, a cheir gwybodaeth gan Lewys Morgannwg fod Barbara, merch Robert Bret o Wlad yr Haf a gwraig Syr George Mathew o Radur, wedi meistrolï peth o'r iaith, gyda'r un bwriad mae'n debyg, er nad oes prawf pellach na hynny. Canwyd cerddi moliant a marwnad i nifer o wragedd bonheddig, mae'n wir, ond go brin y byddent hwy, ar wahân i werthfawrogi'r fraint o gael eu mawrygu yn rhinwedd eu statws, yn deall y cynnwys.

* * * * *

Wel dyna ni wedi rhoi amlinelliad o rai o brif nodweddion a bywyd uchelwyr Bro Morgannwg a'r cyffiniau, ardaloedd a ddenodd nifer gynyddol o deuluoedd estron bras eu byd i gyd-fyw â'r brodorion, er bod diwylliant y naill a'r llall yn y canrifoedd cynnar o ymsefydlu yn dra gwahanol i'w gilydd. Ond yn araf toddodd y ddau endid cymdeithasol i'w gilydd a chreu cymunedau deublyg a chyd-asio'n dda a'i gilydd. Yng nghanrif y Tuduriaid, pan ymddangosodd newidiadau mawr a heriol mewn gwleidyddiaeth, gweinyddiaeth, cyfraith a chrefydd, tyfodd y *genre* hwn i fod yn enghraifft hynod o uchelwriaeth ar ei choethaf cyn i'r edwino diwylliannol a chymdeithasol bylu'r traddodiad erbyn canol y ganrif ddilynol. Wrth asesu'r rhesymau dros y newidiadau niweidiol hynny ni ellir beio'r profiad Tuduraidd yn gyfan gwbl. Llifasai dylanwadau cymdeithasol ac economaidd y canrifoedd blaenorol i'r cylchoedd bonheddig a'u trawsnewid yn araf i sugno maeth o'r dylanwadau newydd a ddeilliasai o ysbryd y Dadeni ac i wynebu her y grymoedd economaidd a deallusol a fygythiai eu sefydlogrwydd. Manteisio ar ganlyniadau'r amgylchiadau hynny wnaeth Harri VII a'i olynwyr ac yng Nghymru defnyddiwyd eu hadnoddau gwleidyddol i'r eithaf i greu cymdeithas newydd, ond eto cymdeithas, fel mewn rhannau eraill o'r Gymru wledig, a barhaodd i warchod a chynnal rhai o'r nodweddion a fuasai'n rhan gynhenid o'u cenedligrwydd Cymreig. Ond daeth tro enbyd ar eu byd ym mlynnyddoedd y ganrif nesaf, ond stori – a thestun darlith arall – yw honno.

Yr Athro J. Gwynfor Jones